***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1513

# Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005

## RHAN 1

CYFFREDINOL

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 30 Rhagfyr 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "asiantaethau cymorth mabwysiadu" yr ystyr a roddir i "*adoption support agencies*" yn Neddf Safonau Gofal 2000(**1**);

mae i "asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol" yr ystyr a roddir i "*voluntary adoption agencies*" yn adran 4 o Ddeddf Safonau Gofal 2000;

mae i "asiantaethau maethu annibynnol" yr ystyr a roddir i "*independent fostering agencies*" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003(**2**);

mae i "awdurdod addysg lleol" yr ystyr a roddir i "*local education authority*" yn Neddf Addysg 1996(**3**);

mae i "cwpl" yr ystyr a roddir i "*couple*" yn adran 144 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**4**);

ystyr "darpar warcheidwad arbennig" ("*prospective special guardian*") yw person—

(a) sydd wedi hysbysu awdurdod lleol o dan adran 14A(7) o'r Ddeddf o fwriad i wneud cais am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn unol ag adran 14A(3) o'r Ddeddf; neu

(b) y mae llys wedi gofyn i awdurdod lleol gynnal ymchwiliad a pharatoi adroddiad yn unol ag adran 14A(9) o'r Ddeddf mewn perthynas ag ef;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Plant 1989;

ystyr "GGA" ("*SGO*") yw Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig;

ystyr "gwarcheidwad arbennig" ("*special guardian*") yw person a benodwyd yn warcheidwad arbennig o dan orchymyn gwarcheidiaeth arbennig a wnaed yn unol ag adran 14A o'r Ddeddf;

ystyr "gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig" ("*special guardianship support services*") yw'r gwasanaethau hynny sy'n dod o fewn rheoliad 3(1) ac adran 14F(1)(a) o'r Ddeddf;

ystyr "person perthynol" ("*related person*") o ran plentyn perthnasol—

(a) yw perthynas i'r plentyn o fewn ystyr adran 105 i'r Ddeddf; a

(**1**) 2000 p.14.
(**2**) O.S. 2003/237.
(**3**) 1996 p.56.
(**4**) 2002 p.38.

(b) yw unrhyw berson arall y mae gan y plentyn berthynas ag ef y mae'n ymddangos i'r awdurdod lleol ei bod yn llesol i'r plentyn;

ystyr "plentyn perthnasol" ("*relevant child*") yw plentyn—

(a) y mae GGA mewn grym ar ei gyfer (y cyfeirir ato yn y rheoliadau hyn fel "plentyn sy'n destun GGA");

(b) y mae person wedi hysbysu awdurdod lleol o dan adran 14A(7) o'r Ddeddf o fwriad i wneud cais am GGA yn unol ag adran 14A(3) o'r Ddeddf ar ei gyfer (y cyfeirir ato yn y rheoliadau hyn fel "plentyn y bwriedir gwneud cais am GGA ar ei gyfer"); neu

(c) y mae llys wedi gofyn i awdurdod lleol gynnal ymchwiliad a pharatoi adroddiad ar ei gyfer yn unol ag adran 14A(9) o'r Ddeddf (y cyfeirir ato yn y rheoliadau hyn fel "plentyn y gofynnodd y llys am adroddiad ar ei gyfer"),

a dehonglir cyfeiriadau at "blant perthnasol" yn unol â hynny.

(4) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad —

(a) at yr Atodlen yn gyfeiriad at yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

(b) at reoliad â Rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn;

(c) mewn rheoliad at baragraff â Rhif yn gyfeiriad at y paragraff yn y rheoliad sy'n dwyn y Rhif hwnnw.